Ysgol Gyfun Garth Olwg

Prifathro / Headteacher
Mr. Trystan Edwards BSc., C.P.C.P.

Campws Cymuned Garth Olwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ **(01443) 57 00 57**
gweinyddol@gartholwg.cymru
www.gartholwg.cymru

Rhagfyr 2018

Annwyl Rhiant / Warcheidwad,

Noson Opsiynau Bl 11
Lansio Cwricwlwm Newydd ar gyfer Medi 2019

Pleser mawr yw eich gwahodd i noson agored ar nos Iau, yr **31ain o Ionawr**, i lansio cyrsiau Chweched Dosbarth Ysgol Gyfun Garth Olwg. Bydd y noson yn dechrau am 4:45yh yn y Neuadd Chwaraeon gyda chyflwyniad cyffredinol ac yna bydd amserlen hyblyg lle ceir cyflwyniadau a gweithdai arbennig gan yr adrannau i rieni a myfyrwyr. Fe fydd yr amserlen o gyflwyniadau ar gael i chi ar ein gwefan maes o law ac fe fydd copi caled yn cael ei dosbarthu ar y noson. Bydd y noson yn dod i ben am 6:50yh.

Bwriad y noson yw agor drafodaethau am y cyrsiau penodol a llwybrau gyrfa posib a fanylir yn y Llyfryn Llwybrau 16+. Bydd y ddogfen hon ar gael trwy ein gwefan ysgol wythnos cyn y noson. Mae'n hanfodol eich bod chi a'ch plentyn yn mynychu'r noson er mwyn i chi gael gwybodaeth lawn am y newidiadau i'n Cwricwlwm Chweched Dosbarth ar gyfer 2019-21.

A fyddech chi gystal â defnyddio maes parcio'r staff neu'r maes parcio cyhoeddus gyferbyn â'r Swyddfa Bost ar Heol St. Illtud yn hytrach na maes parcio'r Ganolfan Dysgu Gydol Oes os gwelwch yn dda? Pe hoffech ragor o fanylion, peidiwch â phetruso cyn dod i gysylltiad â mi yn yr ysgol. Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi ar y noson i drafod datblygiadau newydd cyffrous y flwyddyn nesaf.

Yr eiddoch yn gywir,

Mr Llyr Evans
Arweinydd CA5

Mr Dylan Hughes
Arweinydd CA4

Campws Cymuned GARTH OLWG Community Campus